Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2022/23

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/08/2025 |
| **Dyddiad:** | 26 Mawrth 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler newid yn y statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |


**Crynodeb:** Ystadegau ar nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau yn y Gymraeg a gallu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i siarad Cymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru.

Ystadegau ar nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu yn Gymraeg, ac sydd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.


**Thema:** Addysg Uwch, Y Gymraeg, Cyfrwng Cymraeg

**Ffynhonnell:** Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol ynglŷn ag astudio yn y Gymraeg a gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, ac ar gyfer staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Drwy'r adroddiad i gyd pan ydym yn cyfeirio at astudio yn Gymraeg, rydym yn golygu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach nag astudio Cymraeg fel pwnc.

Ffynonellau'r data yw cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Cyflwynwyd system casglu data a model data newydd yn 2022/23 ar gyfer y data cofnod myfyrwyr. O ganlyniad roedd mwy o faterion gydag ansawdd y data nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae HESA wedi cynhyrchu Adroddiad Ansawdd sy'n darparu trosolwg o ansawdd data'r casgliad ac eglurhad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu ansawdd y data.

Mae pob adran o'r adroddiad llawn yn cynnwys esboniad ar sut y mae hyn wedi effeithio ar y data yn yr adroddiad hwn lle y bo'n berthnasol. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn y ddogfen Ansawdd a methodoleg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad.

Mae'r data ar gael mewn taenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ar wefan Medr. Mae'r data staff hefyd i'w gael ar StatsCymru. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl darparu'r data myfyrwyr ar StatsCymru ar gyfer y datganiad hwn, ond rydym yn bwriadu gwneud hynny ar gyfer datganiadau yn y dyfodol.

## Prif bwyntiau

- Fe astudiodd 4% o fyfyrwyr o leiaf un credyd yn Gymraeg yn 2022/23.
- Gostyngodd nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf un credyd yn Gymraeg 3% o'i gymharu â 2021/22 a 5% o'i gymharu â 2020/21. Fodd bynnag, roedd yn dal i fod yn nifer uwch nag yn y tair blynedd cyn 2020/21.
- Gostyngodd cyfran y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 credyd yn Gymraeg i 3% yn 2022/23, a oedd yn is nag yn unrhyw un o'r pum mlynedd flaenorol. Gostyngodd cyfran y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg islaw 1% yn 2022/23, a oedd yn is nag unrhyw un o'r pum mlynedd flaenorol.
- Fe astudiodd mwy na dwywaith cymaint o fyfyrwyr benywaidd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg o'u cymharu â myfyrwyr gwrywaidd.
- Addysg a hyfforddiant oedd y pwnc modiwl â'r nifer uchaf a'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr yn astudio o leiaf un credyd yn Gymraeg.
- Roedd yn hysbys bod 13% o'r myfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn 2022/23.
- Fe gynyddodd nifer y staff addysgu a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg 1% i 565 yn 2022/23 ar ôl gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2018/19.

# Cynnwys

Crynodeb ..... 1
Prif bwyntiau ..... 1
Adran A: Myfyrwyr a astudiodd yn Gymraeg ..... 3
Adran B: Astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl ..... 8
Adran C: Gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg ..... 10
Adran D: Staff ..... 13
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ..... 17
Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ..... 17
Newid yn y statws ystadegau achrededig ..... 17
Ystadegau cysylltiedig ..... 18
Gwybodaeth gyswllt ..... 18

## Adran A: Myfyrwyr a astudiodd yn Gymraeg

Mae'r adran hon yn cwmpasu myfyrwyr a fynychodd ddarparwr addysg uwch yng Nghymru ac a astudiodd yn Gymraeg.

Wrth wirio ansawdd y data ar gyfer 2022/23 canfuwyd fod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y myfyrwyr a wnaeth fwy na sero a llai nag 1 credyd yn Gymraeg. Fe achosodd hyn gynnydd mawr yn y categori 'rhai credydau' a ddefnyddiwyd mewn rhifynnau blaenorol o'r cyhoeddiad hwn. O gael trafodaethau gyda darparwyr ymddengys fod y cynnydd hwn yn gysylltiedig â materion gyda'r casgliad data cofnod myfyrwyr wedi ei ddiweddaru yn 2022/23 yn hytrach na chynnydd go iawn. O ganlyniad, rydym wedi disodli'r categori 'rhai credydau' a ddefnyddiwyd mewn fersiynau blaenorol o'r datganiad hwn â chategori 'o leiaf 1 credyd' i ddarparu cymhariaeth fwy dilys dros amser.

Mae nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob myfyriwr wedi cael eu cyfrifo fesul modiwl. Er enghraifft, os gwnaeth myfyriwr astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel bod wedi astudio 10 credyd yn Gymraeg. Y cyfanswm ar draws eu holl fodiwlau yw cyfanswm y credydau a astudiwyd yn Gymraeg gan bob myfyriwr.

Y categorïau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg yw: 'o leiaf 1 credyd', 'o leiaf 5 credyd', 'o leiaf 40 o gredydau', 'o leiaf 80 o gredydau' ac 'o leiaf 120 o gredydau'. Mae'r categorïau hyn yn gorgyffwrdd, er enghraifft mae rhywun sydd wedi astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg wedi cael ei gynnwys fel rhywun sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg hefyd.

**Tabl A.1: Nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, rhwng 2017/18 a 2022/23**

| Cofrestriadau | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | 6,315 | 6,165 | 5,800 | 7,170 | 7,010 | 6,825 |
| O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 5,510 | 5,900 | 5,020 | 6,015 | 6,070 | 5,160 |
| O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | 2,570 | 2,720 | 2,670 | 2,825 | 2,765 | 2,445 |
| O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | 1,355 | 1,410 | 1,485 | 1,530 | 1,390 | 1,295 |
| O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | 730 | 740 | 815 | 895 | 835 | 695 |
| Llai nag 1 credyd yn Gymraeg | 123,270 | 126,035 | 130,555 | 137,995 | 142,040 | 147,560 |
| **Pob cofrestriad** | **129,585** | **132,205** | **136,355** | **145,170** | **149,045** | **154,385** |
| **Canrannau (%)** | | | | | | |
| O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | 5% | 5% | 4% | 5% | 5% | 4% |
| O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 4% | 4% | 4% | 4% | 4% | 3% |
| O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 0% |
| Llai nag 1 credyd yn Gymraeg | 95% | 95% | 96% | 95% | 95% | 96% |

Disgrifiad: Roedd 154,385 o gofrestriadau yn 2022/23, gyda 4% o'r rhain yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, o'i gymharu â 5% yn y ddwy flynedd flaenorol.

- Fe ostyngodd nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf un credyd yn Gymraeg 3% o'i gymharu â 2021/22 a 5% o'i gymharu â 2020/21. Fodd bynnag, roedd yn dal i fod yn nifer uwch nag yn y tair blynedd cyn 2020/21.

- Fe ostyngodd cyfran y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg i 4% yn 2022/23.


- Roedd nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn 2022/23 yn is nag ym mhedair o'r pum mlynedd flaenorol. Roedd nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg yn 2022/23 yn is nag mewn unrhyw un o'r pum mlynedd flaenorol; felly yr oedd hi hefyd ar gyfer y rhai a astudiodd o leiaf 80 neu 120 o gredydau yn Gymraeg.

- Fe ostyngodd cyfran y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 credyd yn Gymraeg i 3% yn 2022/23 o'i gymharu â 4% rhwng 2017/18 a 2021/22.

- Roedd cyfran y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 40 o gredydau neu o leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd nifer y myfyrwyr yn y categorïau hyn yn is nag yn unrhyw un o'r pum mlynedd flaenorol.

- Fe ostyngodd cyfran y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg i lai nag 1% yn 2022/23. Mae hynny'n golygu bod cyfran a nifer y myfyrwyr yn y categori hwn yn is nag yn unrhyw flwyddyn arall ers 2017/18.

**Ffigur A.1: Myfyrwyr a astudiodd o leiaf un credyd yn Gymraeg fesul lefel a dull astudio, rhwng 2017/18 a 2022/23**




Disgrifiad: roedd nifer y myfyrwyr israddedig amser llawn a astudiodd yn Gymraeg yn 2022/23 yn uwch nag ym mhob blwyddyn ers 2017/18 ac eithrio 2020/21.

- Roedd nifer yr israddedigion amser llawn a wnaeth o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn 2022/23 11% yn uwch nag yn 2017/18.

- Fe ostyngodd nifer y myfyrwyr ôl-radd amser llawn a wnaeth o leiaf 1 credyd yn Gymraeg 8% rhwng 2017/18 a 2022/23. Roedd gostyngiad canrannol tebyg (7%) ar gyfer israddedigion rhan-amser dros y cyfnod hwn.

- Fe gynyddodd nifer y myfyrwyr ôl-radd a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg 65% rhwng 2017/18 a 2022/23, hyd yn oed gyda gostyngiad o 23% rhwng 2021/22 a 2022/23.

**Tabl A.2: Myfyrwyr yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg a darparwr, 2022/23**

| Cofrestriadau | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | Llai nag 1 credyd yn Gymraeg | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau addysg uwch** | **6,550** | **4,890** | **2,270** | **1,230** | **645** | **146,730** | **153,285** |
| Prifysgol Aberystwyth | 390 | 390 | 290 | 130 | 50 | 8,025 | 8,415 |
| Prifysgol Bangor | 1,380 | 1,335 | 875 | 565 | 235 | 9,445 | 10,825 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 290 | 290 | 275 | 200 | 150 | 13,255 | 13,545 |
| Prifysgol Caerdydd | 495 | 475 | 310 | 110 | 50 | 32,230 | 32,725 |
| Y Brifysgol Agored | 195 | 85 | 20 | 0 | 0 | 14,625 | 14,820 |
| Prifysgol Abertawe | 660 | 460 | 185 | 40 | 20 | 20,850 | 21,510 |
| Prifysgol De Cymru | 110 | 110 | 30 | 10 | 0 | 26,065 | 26,180 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 2,960 | 1,680 | 275 | 165 | 140 | 13,760 | 16,720 |
| Prifysgol Wrecsam | 65 | 65 | 10 | 0 | 0 | 8,480 | 8,545 |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **270** | **270** | **180** | **70** | **50** | **830** | **1,100** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 40 | 40 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 270 | 270 | 180 | 70 | 50 | 600 | 875 |
| Grŵp NPTC Group | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 190 | 190 |
| **Pob cofrestriad** | **6,825** | **5,160** | **2,445** | **1,295** | **695** | **147,560** | **154,385** |
| **Canran (%)** | | | | | | | |
| **Sefydliadau addysg uwch** | **4%** | **3%** | **1%** | **1%** | **0%** | **96%** | **100%** |
| Prifysgol Aberystwyth | 5% | 5% | 3% | 2% | 1% | 95% | 100% |
| Prifysgol Bangor | 13% | 12% | 8% | 5% | 2% | 87% | 100% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 2% | 2% | 2% | 1% | 1% | 98% | 100% |
| Prifysgol Caerdydd | 2% | 1% | 1% | 0% | 0% | 98% | 100% |
| Y Brifysgol Agored | 1% | 1% | 0% | 0% | 0% | 99% | 100% |
| Prifysgol Abertawe | 3% | 2% | 1% | 0% | 0% | 97% | 100% |
| Prifysgol De Cymru | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 18% | 10% | 2% | 1% | 1% | 82% | 100% |
| Prifysgol Wrecsam | 1% | 1% | 0% | 0% | 0% | 99% | 100% |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **25%** | **25%** | **16%** | **6%** | **4%** | **75%** | **100%** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 31% | 31% | 20% | 8% | 6% | 69% | 100% |
| Grŵp NPTC Group | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| **Pob cofrestriad** | **4%** | **3%** | **2%** | **1%** | **0%** | **96%** | **100%** |

Disgrifiad: Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yw’r darparwyr â’r cyfrannau mwyaf o fyfyrwyr yn astudio yn Gymraeg.

- Y darparwyr â’r cyfrannau mwyaf o fyfyrwyr yn gwneud o leiaf un credyd yn Gymraeg oedd Grŵp Llandrillo Menai (31%), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (18%) a Phrifysgol Bangor (13%).


- Mae gan Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor hefyd o leiaf 10% o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

- Ar gyfer yr holl ddarparwyr eraill fe wnaeth 5% o fyfyrwyr ar y mwyaf astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

- Prifysgol De Cymru oedd â'r gyfran leiaf (llai nag 1%) o fyfyrwyr yn astudio yn Gymraeg o blith yr holl sefydliadau addysg uwch.

- Mae bron i ddwy ran o dair (64%) o gofrestriadau gydag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn dod o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor.

**Ffigur A.2: Nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, yn ôl rhyw, 2022/23**




Disgrifiad: yn 2022/23 roedd nifer y myfyrwyr benywaidd a astudiodd o leiaf un credyd yn Gymraeg yn fwy na dwbl nifer y myfyrwyr gwrywaidd.

- O'r myfyrwyr a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, roedd myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o astudio nifer fwy o gredydau yn Gymraeg. Fe wnaeth 23% o'r myfyrwyr benywaidd a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg wneud o leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg o'i gymharu ag 11% o'r myfyrwyr gwrywaidd.

- Fe wnaeth 33% o'r myfyrwyr gwrywaidd a wnaeth o leiaf un credyd yn Gymraeg wneud llai na 5 credyd yn Gymraeg o'i gymharu ag 20% o'r myfyrwyr benywaidd.

## Adran B: Astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth am ba bynciau sy’n cael eu hastudio yn Gymraeg.

Mae’r pynciau sy’n cael eu hastudio wedi cael eu cyfrifo fesul modiwl yma gan bod y data ar astudio yn Gymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer pob modiwl. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw nifer y cofrestriadau ym mhob pwnc yn cyfateb i’r rhai a gyhoeddwyd trwy ffynonellau eraill megis Data Agored HESA lle defnyddir pynciau’r cyrsiau ar y cyfan.

Gall myfyriwr astudio modiwlau mewn pynciau lluosog, a gall un modiwl fod â phynciau lluosog. Gall unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau fod â pheth addysgu yn Gymraeg. Mae’r cywerthedd â pherson llawn (FPE) ar gyfer pob myfyriwr wedi’i rannu ar draws y pynciau modiwl y maent yn eu hastudio. Mae hyn yn golygu nad yw’n bosibl adrodd ar niferoedd pynciau fel bod hynny’n gyson â’r cyfansymiau mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn gan hefyd ddarparu canrannau cywir o fyfyrwyr sy’n astudio pwnc yn Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau’n gywir yma.

Er enghraifft, os oedd hanner modiwlau myfyriwr yn fodiwlau cyfrifiadura, a hanner yn fodiwlau yn y gyfraith, byddai hynny’n cael ei gyfrif fel 0.5 FPE yn astudio cyfrifiadura a 0.5 FPE yn astudio’r gyfraith. Os gwnaeth y myfyriwr o leiaf un credyd o’u modiwlau Cyfrifiadura yn Gymraeg, ond llai nag un credyd o’u modiwlau yn y gyfraith yn Gymraeg yna byddai hynny’n ymddangos yn yr adran hon fel:

| Pwnc | Cofrestriadau (FPE) yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg | Pob Cofrestriad (FPE) |
|---|---|---|
| Cyfrifiadura | 0.5 | 0.5 |
| Y Gyfraith | 0.0 | 0.5 |

Fodd bynnag, yn yr adran flaenorol byddai’r myfyriwr yma’n cael ei gyfrif fel 1 FPE gan fod ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg gan olygu bod nifer y cofrestriadau gydag o leiaf un credyd yn Gymraeg yn is yn yr adran hon.

Yn 2022/23 daeth gwybodaeth am fodiwlau’n ddewisol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Ar gyfer y myfyrwyr hyn defnyddiwyd pynciau eu cwrs ar y cyfan yn lle hynny. Nid yw hyn yn wahaniaeth sylweddol o’i gymharu â sut y cyfrifwyd hyn mewn blynyddoedd cynharach gan bod yr wybodaeth am fodiwlau a ddarparwyd ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd mewn blynyddoedd cynharach yn aml wedi cael ei darparu gan ddefnyddio ffug fodiwlau a oedd wedi eu codio â’r un pwnc â’r cwrs.

**Tabl B.1: Nifer y myfyrwyr a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn ôl rhyw, 2022/23**

| Pwnc | Cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg | Pob Cofrestriad | Canran ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 310 | 4,320 | 7% |
| Pynciau perthynol i feddygaeth | 770 | 16,370 | 5% |
| Gwyddorau biolegol a chwaraeon | 265 | 10,600 | 3% |
| Seicoleg | 130 | 7,990 | 2% |
| Gwyddorau milfeddygol | 0 | 115 | 0% |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 55 | 1,175 | 4% |
| Gwyddorau ffisegol | 25 | 3,430 | 1% |
| Gwyddorau mathemategol | 40 | 2,715 | 2% |
| Peirianneg a thechnoleg | 80 | 9,105 | 1% |
| Cyfrifiadura | 175 | 9,060 | 2% |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 35 | 2,330 | 2% |
| Gwyddorau cymdeithasol | 890 | 15,210 | 6% |
| Y Gyfraith | 240 | 9,090 | 3% |
| Busnes a rheoli | 410 | 25,070 | 2% |
| Astudiaethau iaith ac ardal | 385 | 6,695 | 6% |
| Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 145 | 3,975 | 4% |
| Addysg ac addysgu | 1,255 | 7,775 | 16% |
| Astudiaethau cyfunol a chyffredinol | 175 | 3,360 | 5% |
| Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 60 | 2,470 | 2% |
| Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio | 970 | 6,760 | 14% |
| Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol | 40 | 3,265 | 1% |
| **Pob pwnc** | **6,450** | **154,385** | **4%** |

Disgrifiad: Addysg ac addysgu, a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio oedd y pynciau â'r niferoedd uchaf a'r cyfrannau mwyaf o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

- Addysg ac addysgu oedd y pwnc â'r nifer uchaf a'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg (1,225). Roedd hyn yn rhoi cyfrif am 16% o'r myfyrwyr a astudiodd y pwnc ac 19% o'r holl gofrestriadau gydag o leiaf 1 credyd yn cael ei astudio yn Gymraeg.

- Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio oedd y pwnc â'r ail nifer uchaf (970) a'r ail gyfran fwyaf (14%) o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

- Modiwlau Gwyddorau Milfeddygol oedd â'r nifer isaf a'r gyfran leiaf o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

## Adran C: Gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am allu myfyrwyr a oedd yn byw fel arfer yng Nghymru cyn eu hastudiaethau i siarad Cymraeg.

Roedd newidiadau sylweddol i'r casgliad data gallu Cymraeg yn 2022/23. Mewn blynyddoedd blaenorol cafodd myfyrwyr eu categoreiddio'n siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, ddim yn siaradwr Cymraeg neu anhysbys. Yn 2022/23 fe ychwanegwyd categorïau ychwanegol i ddarparu rhagor o fanylion am y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl trwy ddisodli'r categori hwnnw â'r canlynol:

- Siaradwr Cymraeg: yn gallu siarad cryn dipyn
- Siaradwr Cymraeg: dim ond yn gallu siarad tipyn bach
- Siaradwr Cymraeg: yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig
- Siaradwr Cymraeg: lefel hyfedredd anhysbys

Er nad yw wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, casglwyd data hefyd ar y cwestiwn a allai myfyrwyr ddarllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg am y tro cyntaf yn 2022/23.

Mae'r newidiadau hyn yn golygu nad yw'r data'n gwbl gymaradwy â blynyddoedd cynharach. Er enghraifft, gallai myfyriwr a ddychwelwyd fel un nad oedd yn siaradwr Cymraeg yn 2021/22 gael ei ddychwelyd fel 'Siaradwr Cymraeg: yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig' yn 2022/23.

Yn ogystal â'r diffyg cymharedd â blynyddoedd blaenorol, bu dirywiad hefyd yn ansawdd y data yn 2022/23 a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno'r system casglu data a model data newydd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr a ddychwelwyd â gallu anhysbys i siarad Cymraeg. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r darparwr â'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr a'r nifer uchaf o fyfyrwyr y mae eu statws fel siaradwyr Cymraeg yn anhysbys; fodd bynnag, mae nifer y rhai anhysbys wedi cynyddu'n sylweddol. Serch hynny, profodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru gynnydd sylweddol yn niferoedd y myfyrwyr â gallu anhysbys i siarad Cymraeg yn 2022/23.

Roedd rhai sefydliadau hefyd yn methu â chadarnhau rhuglder rhai myfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg gan arwain at nifer sylweddol o fyfyrwyr a oedd yn siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys. Roedd hyn yn broblem yn arbennig ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, cafodd yr holl fyfyrwyr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg eu dychwelyd fel siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Brifysgol cafodd yr holl fyfyrwyr yn y categori siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys eu hailddosbarthu'n rhai a oedd 'Ddim yn siaradwr Cymraeg' yn y cyhoeddiad hwn.

Disgwylir y bydd ansawdd y data hwn yn gwella yn y dyfodol wrth i'r model casglu data newydd ymsefydlu'n fwy.

**Tabl C.1: Nifer y myfyrwyr yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg, 2022/23**

| Cofrestriadau | Siaradwr Cymraeg: rhugl | Siaradwr Cymraeg: ddim yn rhugl | Siaradwr Cymraeg: gallu anhysbys | Ddim yn siaradwr Cymraeg | Anhysbys | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau addysg uwch** | **9,395** | **13,380** | **4,820** | **28,005** | **16,555** | **72,160** |
| Prifysgol Aberystwyth | 895 | 365 | 355 | 1,275 | 15 | 2,905 |
| Prifysgol Bangor | 1,320 | 475 | 25 | 1,940 | 50 | 3,810 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 865 | 180 | 685 | 2,445 | 2,030 | 6,205 |
| Prifysgol Caerdydd | 1,665 | 1,615 | 0 | 7,265 | 185 | 10,730 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 735 | 1,430 | 0 | 0 | 12,650 | 14,815 |
| Prifysgol Abertawe | 1,370 | 1,370 | 0 | 6,280 | 80 | 9,105 |
| Prifysgol De Cymru | 1,065 | 6,425 | 3,720 | 200 | 1,465 | 12,875 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 1,065 | 1,180 | 0 | 5,325 | 30 | 7,600 |
| Prifysgol Wrecsam | 420 | 335 | 35 | 3,275 | 55 | 4,115 |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **250** | **190** | **5** | **645** | **0** | **1,090** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 5 | 10 | 0 | 25 | 0 | 40 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 240 | 175 | 0 | 450 | 0 | 865 |
| Grŵp NPTC Group | 10 | 5 | 0 | 175 | 0 | 185 |
| **Pob cofrestriad** | **9,645** | **13,570** | **4,825** | **28,650** | **16,560** | **73,250** |
| **Canran (%)** | | | | | | |
| **Sefydliadau addysg uwch** | **13%** | **19%** | **7%** | **39%** | **23%** | **100%** |
| Prifysgol Aberystwyth | 31% | 13% | 12% | 44% | 0% | 100% |
| Prifysgol Bangor | 35% | 13% | 1% | 51% | 1% | 100% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 14% | 3% | 11% | 39% | 33% | 100% |
| Prifysgol Caerdydd | 15% | 15% | 0% | 68% | 2% | 100% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 5% | 10% | 0% | 0% | 85% | 100% |
| Prifysgol Abertawe | 15% | 15% | 0% | 69% | 1% | 100% |
| Prifysgol De Cymru | 8% | 50% | 29% | 2% | 11% | 100% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 14% | 16% | 0% | 70% | 0% | 100% |
| Prifysgol Wrecsam | 10% | 8% | 1% | 80% | 1% | 100% |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **23%** | **17%** | **0%** | **59%** | **0%** | **100%** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 10% | 30% | 0% | 58% | 3% | 100% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 28% | 20% | 0% | 52% | 0% | 100% |
| Grŵp NPTC Group | 5% | 2% | 1% | 93% | 1% | 100% |
| **Pob cofrestriad** | **13%** | **19%** | **7%** | **39%** | **23%** | **100%** |

Disgrifiad: Er ei bod yn hysbys bod 13% o'r holl fyfyrwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl, mae hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau.

[Nodyn 1] Ceir dadansoddiad mwy manwl o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn 'Tabl 6 – manwl'.

- Roedd yn hysbys bod 13% o fyfyrwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

- Prifysgol Bangor (35%) a Phrifysgol Aberystwyth (31%) oedd â'r cyfrannau mwyaf o fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

- Prifysgol Caerdydd oedd â'r nifer uchaf o fyfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (1,665).

- Roedd y gyfran o fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ar ei hisaf yn y Brifysgol Agored yng Nghymru a Grŵp NPTC Group, sef 5% yn y ddau achos, gyda Phrifysgol De Cymru (8%) yn dilyn wedyn.

- Roedd gallu bron i chwarter (23%) y myfyrwyr i siarad Cymraeg yn anhysbys.

**Tabl C.2: Nifer y credydau a astudiwyd yn ôl gallu i siarad Cymraeg ar gyfer myfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru yn unig, 2022/23**

| Gallu i Siarad Cymraeg | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | Pob myfyriwr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhugl | 2,865 | 2,705 | 1,935 | 1,100 | 625 | 9,645 |
| Yn gallu siarad cryn dipyn | 495 | 385 | 190 | 60 | 25 | 4,870 |
| Dim ond yn gallu siarad tipyn bach | 285 | 200 | 65 | 15 | 10 | 5,210 |
| Yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | 3,490 |
| Siaradwr Cymraeg: lefel hyfedredd anhysbys | 25 | 25 | 15 | 5 | 0 | 4,825 |
| Ddim yn siaradwr Cymraeg | 2,110 | 1,305 | 175 | 80 | 25 | 28,650 |
| Anhysbys | 90 | 40 | 10 | 10 | 10 | 16,560 |
| **Pawb** | **5,885** | **4,660** | **2,390** | **1,275** | **690** | **73,250** |

Disgrifiad: Nid yw astudio rhai credydau yn Gymraeg yn gyfyngedig i'r rhai y mae'n hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg, gyda 2,110 o rai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

- Fe wnaeth 30% o'r myfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn 2022/23 astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg. Fe wnaeth 28% astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg ac fe wnaeth 20% astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg.

- O'r rhai a astudiodd o leiaf un credyd yn Gymraeg, roedd rhaniad gweddol gyfartal rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl (2,865) a'r holl fyfyrwyr eraill (3,020).

- Ceir nifer fach o fyfyrwyr sydd wedi eu cofnodi fel rhai nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg ond a oedd yn astudio nifer sylweddol o gredydau yn Gymraeg. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod y data ar y gallu i siarad Cymraeg yn seiliedig ar hunanadrodd. Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr hyn wedi gostwng o'i gymharu â 2021/22 felly nid oes arwydd bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i newidiadau yn y casgliad data yn 2022/23.

## Adran D: Staff


Mae’r adran hon yn ymdrin â staff addysgu academaidd a pha un a oeddent yn gallu addysgu yn Gymraeg ac a oeddent wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg. Yn wahanol i’r data myfyrwyr, nid yw’r adran hon yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru na’r sefydliadau addysg bellach.

Nid yw staff ar gontractau annodweddiadol wedi eu cynnwys. Staff annodweddiadol yw’r rhai nad yw eu trefniadau gweithio’n barhaol, y mae eu trefniadau gweithio’n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu’n golygu gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

Mae’r holl ffigyrau yn yr adran hon yn niferoedd Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE), oni bai y nodir fel arall. Mae hyn yn golygu bod aelod o staff â mwy nag un contract neu weithgarwch wedi ei rannu rhwng y gweithgareddau hynny yn y data. Cyfrifir y ffigyrau FPE yn seiliedig ar gontractau a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn academaidd berthnasol, e.e. 1 Rhagfyr 2022 ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23.

Yn wahanol i’r data myfyrwyr, nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i’r casgliad data staff yn 2022/23. Fodd bynnag, wrth wirio ansawdd y data fe sylwyd fod Prifysgol Caerdydd wedi cofnodi’r holl staff fel rhai nad oeddent wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg. Fe gadarnhawyd mai gwall oedd hyn ac mae Prifysgol Caerdydd wedi darparu data ychwanegol i ddynodi pa aelodau o staff ddylai fod wedi cael eu dychwelyd fel rhai a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg. Defnyddiwyd y data hwn yn lle’r data a gyflwynwyd i gofnod Staff HESA.

**Ffigur D.1: Niferoedd cyfwerth â pherson llawn (FPE) a chyfwerth ag amser llawn (FTE) staff addysgu academaidd a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg, rhwng 2017/18 a 2022/23**




Disgrifiad: Er bod niferoedd Cyfwerth â Pherson Llawn y staff addysgu academaidd a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg wedi gostwng, mae eu niferoedd Cyfwerth ag Amser Llawn wedi cynyddu ychydig.

- Roedd canrannau cyfwerth â pherson llawn (FPE) y staff addysgu yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg 3% yn is yn 2022/23 nag oedd yn 2017/18, a 2% yn is nag yn 2021/22.

- Er gwaethaf y niferoedd gostyngol ar gyfer cyfwerth â pherson llawn, mae'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn (FTE) wedi codi'n gyffredinol dros yr un cyfnod, er na newidiodd rhwng 2021/22 a 2022/23.

**Tabl D.1: Staff addysgu academaidd yn ôl pa un a oeddent yn gallu a/neu wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg, rhwng 2017/18 a 2022/23**

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn gallu addysgu yn Gymraeg | 1,045 | 1,110 | 1,085 | 1,025 | 1,035 | 1,015 |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 485 | 590 | 580 | 570 | 540 | 550 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 325 | 340 | 345 | 300 | 360 | 385 |
| Gwybodaeth heb gael ei cheisio | 230 | 180 | 155 | 160 | 130 | 80 |
| Yn methu ag addysgu yn Gymraeg | 6,775 | 6,865 | 6,810 | 6,740 | 6,745 | 7,220 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn addysgu yn Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 5,225 | 4,895 | 5,170 | 4,895 | 4,955 | 6,295 |
| Gwybodaeth heb gael ei cheisio | 1,550 | 1,970 | 1,640 | 1,845 | 1,790 | 925 |
| Gwybodaeth heb gael ei cheisio | 250 | 140 | 140 | 185 | 430 | 460 |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 0 | 10 | 15 | 10 | 15 | 15 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 60 | 55 | 40 | 50 | 170 | 205 |
| Gwybodaeth heb gael ei cheisio | 190 | 75 | 85 | 125 | 245 | 240 |
| **Pawb** | **8,065** | **8,110** | **8,035** | **7,955** | **8,210** | **8,695** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 485 | 600 | 595 | 575 | 555 | 565 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 5,610 | 5,290 | 5,555 | 5,245 | 5,485 | 6,885 |
| Gwybodaeth heb gael ei cheisio | 1,970 | 2,220 | 1,885 | 2,130 | 2,170 | 1,245 |

Disgrifiad: Er bod nifer y staff a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg wedi gostwng yn 2022/23, fe wnaeth y nifer a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg gynyddu yn 2022/23 ar ôl gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2018/19.

- Fe gynyddodd nifer y staff addysgu a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg 1% rhwng 2021/22 a 2022/23 ar ôl gostwng bob blwyddyn rhwng 2018/19 a 2021/22.

- Roedd 54% o staff addysgu yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg yn 2022/23, o'i gymharu â 52% yn 2021/22.

**Tabl D.2: Nifer y staff addysgu academaidd a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg a'r nifer a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg yn ôl darparwr, 2022/23**

| Darparwr | Yn addysgu yn Gymraeg | Yn gallu addysgu yn Gymraeg | Cyfanswm nifer y staff addysgu |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 120 | 160 | 590 |
| Prifysgol Bangor | 210 | 250 | 820 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 20 | 45 | 855 |
| Prifysgol Caerdydd | 90 | 140 | 2,425 |
| Prifysgol Abertawe | 65 | 75 | 1,270 |
| Prifysgol De Cymru | 25 | 75 | 1,730 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 35 | 260 | 800 |
| Prifysgol Wrecsam | 0 | 10 | 210 |
| **Pob un** | **565** | **1,015** | **8,695** |

Disgrifiad: Prifysgol Bangor oedd â'r nifer uchaf o staff a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg, tra mai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer uchaf a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg.

- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r gyfran fwyaf (32%) o staff addysgu academaidd yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg. Prifysgol De Cymru oedd â'r gyfran leiaf (4%) o staff yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg.

- Prifysgol Bangor oedd â'r gyfran fwyaf (26%) o staff addysgu a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg, gyda Phrifysgol Aberystwyth (21%) yn ail. Nid oedd gan unrhyw ddarparwr arall fwy na 5% o staff addysgu a oedd wedi eu contractio i addysgu yn Gymraeg.

**Tabl D.3: Canolfannau cost staff addysgu a oedd yn addysgu yn Gymraeg, 2022/23**

| Canolfan gost | Yn addysgu yn Gymraeg | Ddim yn addysgu yn Gymraeg | Gwybodaeth heb gael ei cheisio | Pawb |
|---|---|---|---|---|
| Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd | 80 | 1,745 | 155 | 1,980 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddor filfeddygol | 15 | 85 | 0 | 100 |
| Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol | 25 | 640 | 55 | 720 |
| Peirianneg a thechnoleg | 15 | 760 | 125 | 900 |
| Pensaernïaeth a chynllunio | 0 | 90 | 10 | 105 |
| Astudiaethau gweinyddu a busnes | 15 | 805 | 130 | 950 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 65 | 945 | 100 | 1,110 |
| Y dyniaethau ac astudiaethau seiliedig-ar-iaith ac archaeoleg | 135 | 585 | 45 | 765 |
| Dylunio, celfyddydau creadigol a pherfformio | 30 | 380 | 490 | 900 |
| Addysg | 165 | 765 | 120 | 1,050 |
| Gwasanaethau academaidd | 20 | 60 | 10 | 90 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog, cyfleusterau staff a myfyrwyr | 0 | 30 | 0 | 30 |
| Adeiladau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Preswylfeydd ac Arlwyo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Pob un** | **475** | **6,975** | **1,245** | **8,695** |

Disgrifiad: y canolfannau cost â'r niferoedd uchaf o staff yr oedd yn hysbys eu bod yn addysgu yn Gymraeg oedd Addysg a'r Dyniaethau ac Ieithoedd ac Archaeoleg.

- Mae ychydig dros hanner (53%) y staff y mae'n hysbys eu bod yn addysgu yn Gymraeg yng nghanolfannau cost Addysg, a'r Dyniaethau ac astudiaethau seiliedig-ar-iaith ac archaeoleg.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen Ansawdd a methodoleg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad am wybodaeth fanwl.

### Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

**Dibynadwyedd**

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

**Ansawdd**

Daw'r data o gofnodion Myfyrwyr a Staff HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu penodol. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gyflawnir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

**Gwerth**

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a gallu myfyrwyr a staff i siarad Cymraeg.

### Newid yn y statws ystadegau achrededig

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â'r systemau a phrosesau ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a arferai gynhyrchu ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd OSR yn asesu'r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Ystadegau cysylltiedig

Cafodd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon eu cyhoeddi ar llyw.cymru.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ragor o ddata trwy'r e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**